

# Adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol ar gyfer y Rheoliadau Gwastraff (Economi Gylchol) (Diwygio) 2020

Medi 2020

## 1. Cefndir

1. Cafodd Rheoliadau Gwastraff (Economi Gylchol) (Diwygio) 2020 (y Rheoliadau)<sup>1</sup> eu gwneud gan Lywodraeth y DU ar 25 Awst 2020 a'u gosod gerbron Senedd y DU ar 27 Awst 2020.
2. Mae Rheol Sefydlog 30A yn nodi bod yn rhaid i aelod o'r llywodraeth osod Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol mewn perthynas ag unrhyw offeryn statudol perthnasol (e.e. rheoliadau) a osodir gerbron Senedd y DU gan Weinidogion y DU, os yw Offeryn Statudol y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru i ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.
3. Ar 1 Medi 2020, gosododd Hannah Blythyn AS, y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol (y Dirprwy Weinidog), Femorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol (y Memorandwm) gerbron y Senedd<sup>2</sup> ar gyfer y Rheoliadau, yn unol â Rheol Sefydlog 30A. Y diwrnod canlynol, ysgrifennodd y Dirprwy Weinidog atom i'n hysbysu am y Memorandwm.<sup>3</sup>

---

<sup>1</sup> Rheoliadau Gwastraff (Economi Gylchol) (Diwygio) 2020

<sup>2</sup> Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol Llywodraeth Cymru: Rheoliadau Gwastraff (Economi Gylchol) (Diwygio) 2020

<sup>3</sup> Llythyr gan y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol, 2 Medi 2020



## 2. Y Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol

### 4. Mae'r Memorandwm yn nodi fel a ganlyn:

“Amcan y Rheoliadau yw trosi gofynion Pecyn Economi Gylchol (CEP) yr UE 2020 yng Nghymru a Lloegr, ac yn yr Alban a Gogledd Iwerddon o ran y newidiadau sydd eu hangen ar sail cyfansawdd/DU neu Brydain Fawr. Bydd y Gweinyddiaethau Datganoledig yn gwneud eu rheoliadau eu hunain ar gyfer newidiadau eraill sydd eu hangen i ddeddfwriaeth y tu allan i hwn.”<sup>4</sup>

### 5. Mae'r Memorandwm yn esbonio bod y Rheoliadau'n trosi chwech o Gyfarwyddebau diwygio'r UE ym maes gwastraff:

- Gwnaeth Cyfarwyddeb (EU) 2018/849 ddiwygio Cyfarwyddebau 2000/53/EC ar gerbydau diwedd oes (“Cyfarwyddeb ELV”), 2006/66/EC ar fatriâu a chronaduron a batriâu a chronaduron gwastraff (“Y Cyfarwyddeb Batriâu”), a 2012/19/EU ar gyfarpar trydanol ac electronig gwastraff (WEEE) (“Cyfarwyddeb WEEE”);
- Gwnaeth Cyfarwyddeb (EU) 2018/850 ddiwygio Cyfarwyddeb 1999/31/EC ar dirlenwi gwastraff (“y Cyfarwyddeb Tirlenwi”);
- Gwnaeth Cyfarwyddeb (EU) 2018/851 ddiwygio 2008/98/EC ar wastraff (“y Cyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff”);
- Gwnaeth Cyfarwyddeb (EU) 2018/852 ddiwygio Cyfarwyddeb 94/62/EC ar ddeunydd pacio a deunydd pacio gwastraff (“Cyfarwyddeb Deunydd Pacio”); ac
- Mae Cyfarwyddeb Dirprwyedig y Comisiwn (EU) 2020/362 a Chyfarwyddeb Dirprwyedig y Comisiwn (EU) 2020/363 yn diwygio Atodiad II o'r Gyfarwyddeb ELV.<sup>5</sup>

### 6. Mae paragraff 7 o'r Memorandwm yn nodi bod y Rheoliadau yn diwygio'r ddeddfwriaeth sylfaenol ganlynol yn sgil diweddarau'r dyddiad/diffiniadau i adlewyrchu'r diwygiadau diweddaraf i'r Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff gan 2018/851:

- Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990

---

<sup>4</sup> Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol, paragraff 3

<sup>5</sup> Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol, paragraff 4

---

- Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990
- Deddf yr Amgylchedd 1995
- Deddf Masnachu Gwastraff ac Allyriadau 2003
- Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009.

**7.** Mae'r Rheoliadau y mae'r Memorandwm yn ymwneud â hwy wedi'u gosod gerbron Senedd y DU o dan y weithdrefn negyddol. Daw'r darpariaethau sy'n diwygio'r ddeddfwriaeth sylfaenol, fel y nodir uchod, i rym ar 1 Hydref 2020.<sup>6</sup>

**8.** Mae paragraff 8 o'r Memorandwm yn cadarnhau mai barn Llywodraeth Cymru yw bod y darpariaethau yn y Rheoliadau sy'n diwygio'r ddeddfwriaeth sylfaenol a restrir uchod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.<sup>7</sup>

**9.** Mae paragraffau 11 a 12 o'r Memorandwm yn nodi pam, ym marn Llywodraeth Cymru, ei bod yn briodol i'r Rheoliadau wneud y darpariaethau hynny, ac yn nodi bod y "newidiadau a wneir yn rhai cwbl dechnegol" ac "nid ydynt yn destun dadl".<sup>8</sup> Mae'r Memorandwm hefyd yn nodi bod Llywodraeth Cymru o'r farn bod hwn yn ddull cymesur, ac nad yw'r newidiadau a wneir drwy'r Rheoliadau yn gyfystyr â newid mewn polisi.<sup>9</sup>

**10.** Mae'r Memorandwm yn nodi ymhellach:

"Troswyd y Gyfarwydddeb Fframwaith Gwastraff diwygiedig gan Rheoliadau Gwastraff (Cymru a Lloegr) 2011 yng Nghymru a Lloegr ar sail cyfansawdd. Nid oedd yn bosibl, fodd bynnag, weithredu mewn ffordd gyfansawdd y tro hwn gan fod rhai o'r diwygiadau sydd eu hangen yn berthnasol i ddeddfwriaeth ar lefel y DU/Prydain Fawr yn gyfan. Mae Rhan 4 o Femorandwm Esboniadol yr OS yn nodi terfyn tiriogaethol pob rheoliad yn yr OS.

O wneud hyn, nid oedd angen diwygiadau dyblyg, sef fel y byddai pe bai pob gweinyddiaeth wedi gorfod gwneud yr un diwygiadau i'r gyd-ddeddfwriaeth bresennol."<sup>10</sup>

---

<sup>6</sup> Gweler hefyd Femorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol, paragraff 10

<sup>7</sup> Gweler hefyd Femorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol, paragraff 9

<sup>8</sup> Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol, paragraff 12

<sup>9</sup> Ibid.

<sup>10</sup> Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol, paragraffau 13-14

---

### 3. Trafodaeth

11. Trafodwyd y Memorandwm yn ein cyfarfod ar 21 Medi 2020.<sup>11</sup>

### 4. Casgliad

12. Rydym yn fodlon â'r Memorandwm.

13. Nodwn lythyr y Dirprwy Weinidog atom ar 2 Medi 2020.

14. Nodwn nad yw llythyr y Dirprwy Weinidog yn cadarnhau a fydd Llywodraeth Cymru yn cyflwyno cynnig ar gyfer dadl mewn perthynas â'r Memorandwm hwn. Fodd bynnag, nodwn o'r Datganiad a Chyhoeddiad Busnes ar 22 Medi 2020 y disgwylir i ddadl o'r fath gael ei chynnal ar 6 Hydref 2020, ac rydym yn croesawu hynny.

---

<sup>11</sup> Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 21 Medi 2020

---